# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 1af 2024 yn Neuadd Mynach. Yn bresennol oedd Dewi Pritchard (cadeirydd), Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gary Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bethan Thomas, Rita Jones ac Alwyn Jones.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Goleuadau traffig ar yr A494, Bethel – derbyniwyd cadarnnhad gan yr Asiantaethau Cefnffyrdd eu bod wedi gosod arwyddion gyda rhif ffôn cyswllt ar y safle. Cafwyd eglurhad ganddynt fod y broses o ddylunio'r gwaith trwsio/gwelliant yn parhau, gyda'r dilynwyr yn ystyried sawl opsiwn. Roedd yr arolygon amgylcheddol, ecolegol, geotechnegol a thir hanfodol yn cael eu gwneud ar hyn o bryd ac yna mi fyddai'r wybodaeth yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu'r cynllun. Mi fydd y broses dylunio yn parhau am weddill y flwyddyn ariannol yma ac roedd Llywodraeth Cymru/NMWTRA yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r cynlluniau pan fyddent mewn sefyllfa i wneud hyn.
ii) Coed wrth mynedfa Clwb Carafanau Crynierth – roedd y brif swyddfa wedi cysylltu'n ôl i gadarnhau byddai'r contractwr torri coed yn cychwyn ar y gwaith yn fuan. Cynghorwyd nid hwy oedd bia'r coed ar ochr chwith y fynedfa a chytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd am gyngor pellach.

b) Mynwentydd.
Eglurodd y clerc fod y contractwr wedi clirio'r llwybr troed yn Llanfor ac am gario'n mlaen i glirio gweddill o'r fynwent dros yr wythnosau diwethaf. Diolchwyd i'r cynghorwyr a fu'n cario'r pridd ym mynwent Frongoch ac i Alwyn Jones am ail hadu. Awdurdodwyd y clerc i brynnu bylbiau cennin pedr a gwnaed cynlluniau i gydweithio gyda'r ysgolion cynradd lleol i'w plannu yn y mynwentydd.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cynlluniau Ffermydd Gwynt.
i) Fferm Wynt Foel Fach - datblygiad ynni adnewyddadwy newydd arfaethedig. Roedd y cynghorwyr wedi mynychu'r diwrnodau agored diweddar i weld y cynlluniau amlinellol ond cytunwyd i drafod ymhellach pan fyddai'r manylion llawn yn cael eu cyflwyno.

b) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd
ii) Adolygiad Dosbarthau a Mannau Pleidleisio.

c) Amrywiol.
i) Groundwork Gogledd Cymru – grantiau cymunedol.
ii) Llywodraeth Cymru – Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 – cyhoeddi papur ymgynghori.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
C24/0740/04/DT – Estyniadau a newidiadau arfaethedig. Braich Ddu, Glanrafon.
C24/0753/04/LL - Codi sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau/offer amaethyddol a bwyd anifeiliaid ynghyd â gweithdy bychan i drwsio peiriannau. Tir i'r dwyrain o Stryd yr Eglwys, Llandderfel.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i gais Braich Ddu ond gwrthwynebwyd cais y sied yn Llandderfel oherwydd pryder ei bod yn cael ei hadeiladu mewn ardal sy'n cael ei effeithio gan lifogydd (fel y gwelwyd ym mis Mawrth 2019) a beth fyddai'r gweithgareddau ynglwm a'r sied newydd.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi)
ii) TWE
iii) Bylbiau cenin pedr - £99.76, hadau a phetrol (ad-daliad i'r clerc)

**vii) Materion lleol.**

a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.
i) Llwybr troed Capel Rama angen ei dorri.
ii) Gwrych Pen Llan, Llandderfel angen ei dorri'n ôl.
iii) Ffordd o Bryn Tirion, Llandderfel drosodd am y B4391, ffordd Llangynog. Roedd trigolion lleol yn cael trafferth gyda cherbydau mawr yn defnyddio'r ffordd gan eu bod yn dilyn cyfarwyddiadau sat-nav's. Cytunwyd i ofyn a oedd posib cael arwyddion pwrpasol i gynghori cerbydau mawr i beidio defnyddio'r ffordd.
iv)) B4391 - llinellau gwyn wedi gwisgo ar y darn rhwng y gyffordd a'r B4402.
v) Arwydd ffordd newydd ar yr B4501 ger Ty Cerrig, Cwmtirmynach angen ei ail osod gan ei fod wedi troi i wynebu'r cyfeiriad arall.

b) Diffibriliwyr.
Trafodwyd y posibilrwydd na fyddai'r padiau a'r batris yn cael eu cyflenwi am ddim o hyn ymlaen. Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach ac yna trafod y posibilrwydd o ychwanegu arian i'r gyllideb os bydd angen.

c) Lloches bws newydd i Lanfor.
Yn dilyn cais arall gan un o drigolion y pentref cytunwyd i ail edrych ar gael lloches ychwanegol ar yr A494.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 5ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..